VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

**CYFARWYDDIAETH DYSGU A SGILIAU**

**Fforwm Cyllideb Ysgolion**

**25 Medi 2024 – Swyddfeydd Dinesig**

| | |
|---|---|
| **AELODAU'N BRESENNOL:** | Trevor Baker, Lucy Barrowclough, Chris Britten, Mairead Canavan, Peter Cate, Matt Gilbert (Is-gadeirydd), Rhys Angell Jones, James Mansfield, Martin Price, Paula Vaughan, Terry Vaughan Taylor. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Amanda Bennett, Matt Bowmer, Rachel Cox, Amanda Geddes, Gemma Gullwell-Jones, Elizabeth Jones, Lisa Lewis, Nicola Monckton, Joanne Ware. |

| **Eitem** | **Mater** | **Trafodaeth** | **Cam Gweithredu** |
|---|---|---|---|
| 1. | Croeso ac Ymddiheuriadau | Croeso gan yr Is-gadeirydd Matt Gilbert.<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau gan<br>David Blackwell (Cadeirydd), Tim Exell, Ruth Foster, Mari Gibbs, y Cynghorydd Emma Goodjohn, Gemma Jones, Rhodri Jones | |
| 2. | Cofnodion y cyfarfod blaenorol<br><br>Materion yn codi | Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.<br><br>**<u>Llythyr Powys</u>**<br>Roedd DB yn chwilio am adborth gan aelodau ynglŷn â'r ohebiaeth ddiweddar ym Mhowys ac a oedd modd llunio llythyr tebyg i rieni yn y Fro. Bydd MG yn trafod hyn â DB.<br><br>Nid oedd unrhyw faterion yn codi nad oeddent yn rhan o'r agenda. | MG/DB |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3. | Aelodaeth Fforwm y Gyllideb a'r cyfansoddiad | Rhannwyd aelodaeth a chyfansoddiad y Fforwm Cyllideb â'r fforwm er gwybodaeth.<br><br>Mae swydd Paula Vaughan sy'n cynrychioli ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir a gwirfoddol a reolir wedi cael ei hestyn am dair blynedd arall.<br><br>Bu swydd o fewn y cyfansoddiad erioed ar gyfer cynrychiolydd ysgol sefydledig. Nid yw Stanwell bellach yn ysgol sefydledig ond cytunwyd y byddai James Mansfield yn aros ar y fforwm i gynrychioli clwstwr Penarth.<br><br>Dywedodd MG fod clwstwr Pencoedtre wedi gofyn i aelod o glwstwr Pencoedtre gael ei gynnwys ar y fforwm. Dywedodd TB fod cyfansoddiad y fforwm yn seiliedig ar y pedwar clwstwr yn unig gan y byddai'r fforwm fel arall yn mynd yn rhy fawr. Dywedodd TB fod ysgolion clwstwr Pencoedtre o fewn clwstwr y Barri sydd eisoes yn cael ei gynrychioli gan Matt Gilbert ac Innes Robinson. | |
| 4. | Cyllid ar gyfer disgyblion sydd wedi'u gwahardd yn barhaol | Daeth Amanda Geddes i'r cyfarfod ar ran Morwen Hudson i ddiweddaru'r fforwm am gynlluniau i sicrhau bod cyllid yn dilyn disgyblion sydd wedi'u gwahardd yn barhaol sy'n unol â'r canllawiau.<br><br>Codir tâl ar ysgolion am ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd yn barhaol yn y flwyddyn y cawsant eu gwahardd yn barhaol.<br><br>Bydd y tâl yn seiliedig ar fformiwla a fydd yn seiliedig ar y cyllid sy'n gysylltiedig â disgyblion a ddyrennir o fewn y fformiwla (gwerthoedd AWPU) gan gymhwyso cyfrifiad a ddyrennir pro rata ar gyfer y cyfnod sy'n weddill o fewn y flwyddyn ariannol y mae'r disgybl wedi'i wahardd amdani. Yn ogystal â'r AWPU, bydd y fformiwla hefyd yn ystyried unrhyw gyllid PYADd (GAD).<br><br>Ni chodir mwy o dâl ar ysgolion fesul disgybl na swm y cyllid y maent yn ei dderbyn fesul disgybl.<br><br>Bydd y cyfrifiad a ddyrennir pro rata yn cael ei addasu ar gyfer disgyblion sydd wedi'u gwahardd yn barhaol ym mlwyddyn 6. | AG/MH |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Bydd AG yn darparu'r fformiwla y gellir ei chylchredeg i'r fforwm. | |
| 5. | Diweddariad Grantiau | Rhoddodd NM ddiweddariad am grantiau i'r fforwm.<br>Mae'r holl grantiau y mae'r Tîm Cyllid Addysg eisoes yn gwybod amdanynt wedi'u dyrannu'n barod i ysgolion ac eithrio GAD/PDG a fydd yn cael eu dyrannu'n fuan.<br><br>Yng nghyfarfod grŵp cyllid CCAC, cadarnhaodd cydweithwyr LlC y byddai grant yn cael ei ddyfarnu ar gyfer codiad cyflog athrawon y tu hwnt i'r swm a dybir eisoes yn y setliad; ac y byddai grant pellach yn cael ei ddarparu tuag at gost y cynnydd ym mlwydd-dal athrawon.<br><br>Nid oes unrhyw arwydd o faint o arian grant sydd ar gael eto, ac a fydd hyn yn ddigonol i dalu'r gost lawn uwch.<br><br>Dywedodd NM fod cyllidebau ysgolion yn seiliedig ar sefyllfa gost-niwtral ar gyfer pensiynau gan dybio y bydd y grant yn talu'r gost uwch er mwyn osgoi gorchwyddo diffygion ysgol nes bod gwybodaeth am y grant ar gael.<br><br>Dywedodd JM wrth y fforwm fod yr oedi cyn derbyn y grant pensiwn wedi arwain at Stanwell yn adrodd gorwariant ystumiedig ar gyflogau i Lywodraethwyr ac na ellid cynnwys y grant o fewn y monitro fel amcangyfrif oherwydd cyfarwyddiadau archwilio diweddar i beidio â chynnwys grantiau nes iddynt gael eu gwirio gan Lywodraeth Cymru neu'r corff dyfarnu.<br><br>Dywedodd MB y cafodd y cynnydd mewn pensiynau ei bennu ym mis Rhagfyr, ond bod yn rhaid i'r trysorlys benderfynu ar yr arian hwnnw yn gyntaf, ac yna ei hidlo i Gymru trwy fformiwla Barnett yr ydym yn aros arni.<br><br>Gofynnodd RAJ a fyddai'r dyfarniad cyflog yn cael ei ariannu'n llawn unwaith y derbyniwyd y grant. Dywedodd MB fod y cyngor yn tybio cynnydd cyflog o 4% i ysgolion a bod 75% o'r gost hon wedi'i chynnwys fel twf yn y gyllideb o fewn cyllideb 2024/25. Nid oedd y Cyngor mewn sefyllfa i ariannu'r dyfarniad cyflog llawn ar gyfer unrhyw wasanaethau gyda phob cyfarwyddiaeth yn derbyn 75% o'r gost lawn. O ganlyniad, derbyniodd pob | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cyfarwyddiaeth mewn gwirionedd doriad effeithlonrwydd o 25% o gost y codiad cyflog.<br><br>Dywedodd MB ein bod yn aros am gadarnhad o'r grantiau pensiynau a chwyddiant tâl ac a fydd y pwysau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y setliad ar gyfer 2025/26. | |
| 6. | Gwobrau gwasanaeth hir | Rhoddodd MB wybod i’r fforwm am y datganiad polisi gwobrau gwasanaeth hir. Roedd gweithwyr y Cyngor a gweithwyr ysgolion wedi etifeddu system anfoddhaol lle'r oedd yn rhaid i weithwyr wneud cais am eu dyfarniad gwasanaeth hir a oedd yn arwain at system anghyson o ran lle roedd dyfarniadau gwasanaeth hir yn cael eu rhoi. Mae'r polisi newydd (y cytunwyd arno gan uwch dîm arwain y Cyngor) yn caniatáu i bob aelod o staff dderbyn y taliad hwn yn awtomatig, heb fod angen gofyn amdano.<br><br>Cost pob dyfarniad gwasanaeth hir yw £250 a fydd yn cael ei ddyrannu pro rata ar sail gwaith llawn amser a rhan-amser. Mae ysgolion yn gyfrifol am gost dyfarniadau gwasanaeth hir sy'n cael eu hystyried yn gost cyflogaeth arferol.<br><br>Dywedodd MB ymhellach fod angen gwahaniaethu rhwng taliadau a wneir o dan y cynllun ffurfiol hwn gan y Cyngor a thaliadau am gost gadael anrhegion i staff megis blodau y mae'n rhaid talu amdanynt trwy gyfraniadau staff ac nid cyllideb yr ysgol na chronfa answyddogol yr ysgol.<br><br>Gwrthwynebodd PV y polisi newydd ar sail fforddiadwyedd lle mae ysgolion eisoes yn cael trafferth gyda sefyllfa'r gyllideb, a hefyd ar y diffyg tryloywder a'r ffordd y cafodd y polisi newydd ei gyflwyno heb unrhyw rybudd ymlaen llaw i ysgolion. Yn ogystal, mae gan ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion gwirfoddol a reolir gyfrifoldeb i bennu’r polisi cyflog a mabwysiadu polisi o'r fath.<br><br>Dywedodd TB fod y cynllun dyfarniad gwasanaeth hir wedi bodoli erioed ond mai dyma'r tro cyntaf iddo gael ei ddogfennu mewn polisi.<br><br>Dywedodd MB y gall ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion gwirfoddol ddewis peidio â mabwysiadu'r polisi. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Gwahoddodd MB ysgolion y mae'r polisi yn effeithio'n anghymesur arnynt i gysylltu â'r ALI i gael trafodaeth. | |
| 7 | Pwysau costau cyllidebau cyfarwyddiaethau | Dywedodd TB wrth y fforwm fod gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i bennu cyllideb 2025/26 ac mai rhan o'r broses hon yw i bob cyfarwyddiaeth gyflwyno ei phwysau costau cynyddol.<br><br>Cyfanswm y pwysau costau a gyflwynwyd hyd yma gan y gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau yw £5.3M, ac mae'r rhan fwyaf o'r pwysau hyn yn ymwneud ag ADY.<br><br>Mae pwysau costau ysgolion a gyflwynwyd yn ymwneud â chanolfannau adnoddau a chymorth arbenigol, er enghraifft canolfannau adnoddau Horizon a Hafan, a'r cynnydd demograffig a ragwelir yn nifer y disgyblion ysgol arbennig.<br><br>Yn bennaf, mae pwysau costau addysg ganolog a gyflwynwyd ar gyfer cymorth ADY canolog; diwallu'r angen trwy gyfrwng y Gymraeg, lleoliadau y tu allan i'r sir, lleihau incwm y tu allan i'r sir a chymorth AHY.<br><br>Mae pwysau cost pellach wedi'u cyflwyno ynglŷn â'r newid o SIMS.<br><br>Dywedodd MB y cytunodd y cabinet ar strategaeth ariannol ym mis Gorffennaf ac y cafodd y pwysau a amlinellwyd eisoes yn y CATC eu cario drosodd a roddodd amcangyfrif o ddiffyg o £9M.<br><br>Ar gyfer 2024/25 nodwyd pwysau o £38M ar draws y Cyngor y cydnabuwyd £22M o hyn, gan arwain at arbedion effeithlonrwydd o £7.6M.<br><br>Mae gwaith monitro chwarter un i'r Cyngor eisoes wedi nodi defnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn gwerth £13M.<br><br>Mae adroddiad diwygiedig yn cael ei lunio gyda phwysau costau diwygiedig ar gyfer pob cyfarwyddiaeth. Cynhaliwyd adolygiad manwl eisoes o bwysau costau gyda'r canlyniadau'n bwydo i arolwg o drysoryddion ledled Cymru. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Mae'r bwlch gwreiddiol o £9M a nodwyd ar gyfer 2025/26 bellach dros £20M oherwydd pwysau ychwanegol mewn addysg, trafnidiaeth addysg a gwasanaethau cymdeithasol.<br>Bydd pwysau costau nawr yn cael eu blaenoriaethu a'u rheoli ar i lawr gyda'r pwyslais ar flaenoriaethu gwasanaethau statudol. | |
| 8. | Sefyllfa cyllidebau ysgolion a dadansoddiad ar sail clystyrau | Rhannodd TB gyflwyniad dadansoddi ysgolion gyda'r fformiwla a fydd yn cael ei ddosbarthu i aelodau'r fforwm cyllideb i'w rannu â chlystyrau.<br><br>Nododd TB y gall penaethiaid deimlo'n ynysig gyda phryderon cyllidebol ac fe bwysleisiodd y neges bod y dull hwn yn ymwneud â sut y gall ysgolion a'r ALI weithio gyda'i gilydd i leihau pwysau cyllidebol. Yn ogystal, mae angen tryloywder er mwyn hwyluso sgwrsio.<br><br>Darparwyd ystadegau pennawd fesul sector a chlwstwr yn nodi diffyg a balansau gwarged. Roedd y data'n dangos bod pob clwstwr oddeutu 50/50 o ran gwarged/diffyg, ac eithrio clwstwr y Barri, lle mae diffyg ar bob ysgol. Darparwyd y data o fewn cyd-destun cyllid ychwanegol trwy GAD, Ysgolion Bro ac ati wedi'i ddadansoddi fesul clwstwr, GAD, niferoedd disgyblion a chymhwysedd PYADd.<br><br>Dangosodd y cyflwyniad y cafwyd gostyngiad yn nifer y disgyblion dros y blynyddoedd diwethaf ond cynnydd yn nifer y staff, er ei bod yn bwysig cydnabod y cynnydd yn nifer y disgyblion sydd â chymhlethdodau.<br><br>Roedd y cyflwyniad hefyd yn dangos y newidiadau yn y sefyllfa gyllidebol ragamcanol a nodwyd gan bob ysgol ar ddechrau'r flwyddyn, o'i chymharu â'r sefyllfa alldro sydd bob amser yn llawer llai difrifol er y nodwyd bod y newid hwn yn cael ei achosi'n bennaf gan grantiau nad ydynt yn hysbys i ysgolion tan yn llawer diweddarach yn y flwyddyn ariannol.<br><br>Nododd y data fod gwariant ar staff asiantaeth wedi cynyddu £5.8M dros gyfnod o dair blynedd. Mae'r data'n mapio gwariant ar staff asiantaeth yn erbyn ystadegau megis staff cyfwerth ag amser llawn a lefelau salwch. | Penaethiaid |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Mae'r awdurdod lleol yn edrych ar gostau staff asiantaeth fel rhan o'r agenda drawsnewid i nodi'r dull mwyaf cost-effeithiol o reoli staff asiantaeth. Bydd rhai ysgolion yn cyflogi goruchwylwyr cyflenwi yn hytrach na defnyddio asiantaethau i gyflenwi yn ystod absenoldebau. Mae angen gwaith i asesu a yw hwn yn ddewis amgen rhatach sy'n addas ar gyfer pob ysgol.<br><br>Mae gwariant ar staff asiantaeth fesul ysgol yn amrywio o £3,000 i £700,000. Y gwariant mwyaf ar staff asiantaeth mewn ysgol gynradd oedd £350,000.<br><br>Rhoddodd TB ddiweddariad i'r fforwm hefyd am raglen fuddsoddi HWB gan ddangos bod £0.5M wedi cael ei fuddsoddi mewn ysgolion dros y tair blynedd diwethaf.<br>Mae'n ofyniad craidd yr arian grant bod ysgolion yn dychwelyd strategaeth TG i'r ALl. Yn anffodus, nid yw 70% o ysgolion wedi dychwelyd eu strategaeth TG. Byddwn yn cysylltu â'r ysgolion hynny cyn gynted ag y bydd angen tystiolaeth i Lywodraeth Cymru ystyried estyn y grant ar gyfer y blynyddoedd i ddod.<br><br>**Contractau a thrwyddedau**<br>Mae'r ALl yn adeiladu rhestr gyfunol o'r holl gontractau ysgol gyda phrisiau a dyddiadau gorffen i wneud yn siŵr bod ysgolion yn sicrhau'r gwerth gorau am arian. Nid yw pob ysgol wedi darparu'r wybodaeth gywir ond mae'r data a ddarparwyd hyd yma wedi nodi bod ysgolion yn talu prisiau gwahanol am yr un gwasanaethau.<br><br>Nodwyd bod rhai ysgolion yn dal i brynu trwyddedau am £50 y disgybl pan fo Office 365 ar gael o dan HWB am ddim.<br><br>Ar hyn o bryd mae'r ALl wrthi'n chwilio am system newydd i'w defnyddio yn lle SIMs. Mae pob ysgol yn defnyddio SIMS ar hyn o bryd, ond nodwyd bod 41 ysgol yn gwario £176k yn ychwanegol ar feddalwedd ychwanegol ar gyfer rheoli data ac amserlennu.<br><br>Rhagwelir y bydd y feddalwedd newydd yn cwmpasu pob maes gan gynnwys amserlennu ysgolion uwchradd fel nad yw ysgolion yn bwriadu defnyddio cyllidebau dirprwyedig i ariannu atebion meddalwedd. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Dywedodd RAJ fod yn rhaid ystyried cyfnod pontio i'r broses weithredu gan fod amser arweiniol hir gan y broses amserlennu gydag amserlenni'r blynyddoedd nesaf eisoes yn cael eu modelu mewn ysgolion.<br><br>Dywedodd TB fod yn rhaid i bob ysgol ddefnyddio systemau'r cyngor sy'n cynnwys Oracle Fusion yn dilyn y newid o Sims FMS. Ni ddylai ysgolion gaffael pecynnau meddalwedd cyllid ychwanegol fel Sage tra bod Oracle Fusion eisoes ar gael.<br><br>**Cyfleustodau**<br>Mae £46,000 wedi'i golli mewn taliadau dŵr oherwydd gollyngiadau mewn wrinalau a thapiau gyda'r broblem hiraf a adroddwyd yn para 613 diwrnod cyn i dap oedd yn gollwng gael ei drwsio.<br><br>**Bright Sparks/Energy Sparks**<br>Mae gan ysgolion peilot sy'n cymryd rhan fynediad i ddangosfwrdd sy'n edrych ar y defnydd o ynni a thueddiadau ynni yn yr adeilad.<br><br>Anogir ysgolion i wneud cais am Prosiect Sero.<br><br>**Cynllunio Cyllidebau Ysgolion**<br>Mae cyllidebau ar gyfer ysgolion sydd â diffyg gyda chynllun adfer cytbwys o 3-5 mlynedd wedi'u derbyn.<br><br>Bydd ysgolion nad ydynt yn gallu cynhyrchu cynllun adfer cytbwys yn parhau i gael eu monitro. | |
| 9. | Unrhyw Fater Arall | Ni chodwyd unrhyw fusnes arall<br><br>Dyddiadau’r cyfarfod nesaf<br><br>2 Rhagfyr 2024 – Ysgol Uwchradd Pencoedtre<br>5 Mawrth 2025 – Ysgol Stanwell<br>11 Mehefin 2025 - Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg | |